Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau

2024 Adroddiad Blynyddol

## Diben, Gweledigaeth, Gwerthoedd a Strategaeth

### Ein Diben

Gweithredu porthladd ynni blaenllaw'r DU yn ddiogel, yn gyfrifol ac yn effeithiol.

### Ein Gweledigaeth

Bod yn geidwaid balch Dyfrffordd y Ddau Gleddau bob amser; sicrhau bod pobl yn ymddiried ynom i ddarparu gwytnwch yn ddiogel, a chefnogi cymunedau arfordirol cynaliadwy ar gyfer ffyniant cenedlaethau'r dyfodol.

### Ein Gwerthoedd

Mae gennym ffocws diwyro ar Ddiogelwch, sydd wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud. Rydym yn ymdrechu i sicrhau Rhagoriaeth trwy Gydweithio, gyda chydwybod Gynaliadwy.

### Ein Strategaeth

***Ehangu ein gallu peilota o'r radd flaenaf.***

Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn:

- Er mwyn sicrhau gwasanaeth gwydn ac effeithlon i'n cwsmeriaid, fe wnaethom fuddsoddi mewn cwch peilota newydd gyda'r gorau yn y diwydiant.
- Mae uwchraddio ein hyfforddiant llywio wedi gwella hyfforddiant ac mae'n ein helpu i archwilio galluoedd a dulliau gweithredu newydd.
- Mae penodi staff newydd mewn rolau rheng flaen a rolau goruchwylio yn cynyddu gwytnwch ein gweithrediadau er mwyn i ni gynnal gwasanaeth rhagorol ac ymdopi â digwyddiadau fel tywydd garw.

***Datblygu Glannau Aberdaugleddau fel cyrchfan flaenllaw ar gyfer twristiaeth, diwylliant, treftadaeth a hamdden.***

Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn:

- Datblygu ein hamserlen cynnal digwyddiadau er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr, sydd o fantais i fusnesau lleol.
- Gwella mynediad a chyfleusterau er mwyn sicrhau bod Glannau Aberdaugleddau yn gyrchfan o ansawdd uchel i bawb.
- Darparu seilwaith i wella'r dociau pysgota drwy Gronfa Bwyd Môr y DU DEFRA.

***Datblygu Porthladd Penfro fel porthladd amlbwrpas, sy'n barod ar gyfer ynni'r dyfodol trwy ddarparu cynnig cyrchfan cyfnod cynnar.***

Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn:

- Fel un o bartneriaid allweddol y Porthladd Rhydd Celtaidd, rydym yn gweithio i sicrhau bod y rhanbarth cyfan yn gallu manteisio ar gyfleoedd yn y sector ynni adnewyddadwy morol.
- Cwblhawyd ein buddsoddiad yng nghyfleuster Ardal Forol Doc Penfro, gan gynnwys y llithrfa enfawr, a ariannwyd yn rhannol gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae wedi bod yn ddangosydd sylweddol o'n hymrwymiad i gefnogi twf mewn ynni adnewyddadwy.
- Mae ein cydweithrediad ym maes ynni amrywiol yn denu arloeswyr fel ERM a Haush, sy'n archwilio potensial technolegau ynni newydd.